# PAPURAU BUSNES

## 6 Chwefror 2001

## Rhan 1 – Adran G

## Rhybudd o Gynigion a Gwelliannau ar gyfer Dadl yn y Dyfodol

## Cynigion a gyflwynwyd ar 25 Ionawr 2001

**NDN521 Andrew Davies (Gorllewin Abertawe)**

Cynnig bod y Cynulliad Cenedlaethol yn penderfynu:

1. Bod pwyllgor, i’w adnabod fel Pwyllgor Penderfyniadau Cynllunio 2000/1, yn cael ei sefydlu, yn unol â Rheol Sefydlog 35, i gyflawni swyddogaethau’r Cynulliad wrth benderfynu ar ddau gais o dan Adran 77 o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 mewn perthynas â’r materion a nodir yn yr Atodlen i’r cynnig hwn, a bod swyddogaethau’r Cynulliad yn y cyswllt hwnnw yn cael eu dirprwyo i’r Pwyllgor hwnnw;

2. Mai aelodau’r Pwyllgor fydd:

Richard Edwards
Karen Sinclair
Geraint Davies
David Davies

3. Bod y pwyllgor yn peidio â bod pan fydd Cadeirydd y Pwyllgor yn llofnodi’r llythyrau penderfynu yn unol â Rheol Sefydlog 35.16 neu ar 28 Chwefror 2001 p’un bynnag sy’n dod gyntaf.

4. Os yw’r Pwyllgor yn peidio â bod heb i’r Cadeirydd lofnodi’r llythyrau penderfynu mewn perthynas â’r materion a nodir yn yr Atodlen i’r cynnig hwn yna yn yr achos hwnnw dirprwyir y swyddogaethau a nodir ym mharagraff 1 uchod, mewn perthynas â mater o’r fath, i’r Prif Weinidog.

**Atodlen**

Cais gan Bartneriaeth Williams Humphreys i godi datblygiad preswyl arfaethedig a gwaith trin carthion arfaethedig ar dir Neuaddfraith, Aberbechan, y Drenewydd, Powys.

Cais gan Mr T A E Price a Mrs G M Price ar gyfer datblygiad preswyl arfaethedig (codi 67 o dai annedd, man chwarae, ffyrdd ystad, lledu’r briffordd gyffiniol a’r gwaith draenio) ar dir ym

Mhwynt AO 2949 Llandysul, Trefaldwyn (Adnewyddu Caniatâd Cynllunio M18097).

**NDM522 Andrew Davies (Gorllewin Abertawe);**

Cynnig bod y Cynulliad Cenedlaethol, yn gweithredu o dan adran 46(6) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998, a Rheol Sefydlog 34:

i. yn ystyried adroddiad y Pwyllgor Busnes a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 23 Ionawr 2001;

ii. yn cymeradwyo'r gwelliannau canlynol i'r Rheolau Sefydlog;

iii. yn penderfynu bod y gwelliannau'n dod i rym ar unwaith:

**Rheol Sefydlog 3**

1. Ym mharagraff 3.1 dileu "Ysgrifennydd Cynulliad" ac yn ei le rhoi "aelod o Bwyllgor y Ty".

2. Mewnosod paragraff 3.4 fel a ganlyn:

"Bydd y Cynulliad yn ethol Ymddiriedolwyr i Gynllun Pensiwn Aelodau Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn unol â Rheolau'r Cynllun ar y pryd hwnnw yn dilyn cynnig a gynigir gan aelod o Bwyllgor y Ty."

3. Ailrifo gweddill y paragraffau yn Rheol Sefydlog 3

**Rheol Sefydlog 6 (Newidiadau canlyniadol)**

1. Ym mharagraff 6.26A, dileu "Rheol Sefydlog 28" a rhoi yn ei le "Rheol Sefydlog 36"

2. Ym mharagraff 6.34A, dileu "Rheol Sefydlog 28" a rhoi yn ei le "Rheol Sefydlog 36"

3. Ym mharagraff 6.29(i), dileu "a dderbynnir rhwng 9am and 5pm" a rhoi yn ei le "a dderbynnir cyn 4pm"

4. Ym mharagraff 6.29(ii), dileu "a dderbynnir ar ôl 5pm" " a rhoi yn ei le "a dderbynnir ar ôl 4pm".

## Cynigion a gyflwynwyd ar 30 Ionawr 2001

**NDM523 Andrew Davies (Gorllewin Abertawe);**

Cynnig bod y Cynulliad Cenedlaethol:

- yn unol â Rheol Sefydlog 19.9, yn cymeradwyo’r Adroddiad Cyllid Llywodraeth Leol ar gyfer y flwyddyn ariannol 2001-02, a gafodd ei ddosbarthu i’r Aelodau drwy’r e-bost ac a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 30 Ionawr 2001 gan Weinidog y Cynulliad dros Gyllid, Llywodraeth Leol a Chymunedau; ac
- yn unol â Rheol Sefydlog 19.8, yn cymeradwyo’r Adroddiad Grant Arbennig (Rhif 2) (Cymru) 2001, a gafodd ei ddosbarthu i’r Aelodau drwy’r e-bost ac a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 30 Ionawr 2001 gan Weinidog y Cynulliad dros Gyllid, Llywodraeth Leol a Chymunedau fel y bo modd talu i’r awdurdodau lleol perthnasol y grant trosiannol ar gyfer lliniaru effeithiau’r fformwla newydd ar gyfer asesiadau gwariant safonol ar yr awdurdodau hynny.

**NDM524 Andrew Davies (Gorllewin Abertawe);**

Cynnig bod y Cynulliad Cenedlaethol, gan weithredu o dan adran 62(1)(b) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998, yn penderfynu dirprwyo holl swyddogaethau'r Cynulliad Cenedlaethol yn y Rheoliad Ymbelydredd Ïoneiddio (Amlygiad Meddygol) 2000 (sydd ar gael ar wefan HMSO: http://www.legislation.hmso.gov.uk/si/si2000/20001059.htm) i Brif Weinidog Cymru, ac eithrio'r rhai hynny nad yw'r gyfraith yn caniatáu eu dirprwyo.

Ni fydd dim yn y penderfyniad hwn yn lleihau goruchafiaeth awdurdod y Cynulliad llawn, nac yn lleihau swyddogaeth Pwyllgorau'r Cynulliad o ran adolygu effeithiolrwydd polisïau a datblygu polisïau newydd, fel y disgrifiwyd yn Rheol Sefydlog 9.7 (i), wrth gyfrannu at ddatblygu polisïau'r Cynulliad.

**NDM525 Andrew Davies (Gorllewin Abertawe);**

Cynnig bod y Cynulliad Cenedlaethol yn:

Ystyried egwyddor Rheoliadau Porthiant (Cymru) 2001 a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 14 Rhagfyr 2000.

**NDM526 Andrew Davies (Gorllewin Abertawe);**

Cynnig bod y Cynulliad Cenedlaethol:

(a) yn ystyried Adroddiad y Pwyllgor Deddfau sydd heb nodi o dan Reol Sefydlog 11.5 unrhyw faterion sy’n destun pryder yn y gorchymyn drafft, Rheoliadau Porthiant (Cymru) 2001, a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 20 Rhagfyr 2000;

(b) yn cymeradwyo bod y Gorchymyn yn cael ei wneud yn unol â’r drafft a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 14 Rhagfyr 2000 a’r memorandwm cywiriadau yn unol â Rheol Sefydlog 22.13 (i) a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 29 Ionawr 2001.